Mantell Gwynedd
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

NEWYDDLEN GWANWYN 2008

IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES

Croeso i Newyddlen Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles rhifyn y Gwanwyn ar gyfer y sector wirfoddol. Pwrpas y Newyddlen yma yw rhannu a chyflwyno gwybodaeth berthnasol ym maes iechyd, gofal a lles. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau mae croeso i chi gysylltu â ni ym

Mantell Gwynedd, 24-26 Stryd Fawr, Caernarfon LL55 1RH
☎01286 672626 Ffacs: 01286 678430
neu sioned@mantellgwynedd.com

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

NEWYDDION:

Cynllun i Ychwanegu Gwerth – trydydd dimensiwn: Cyfeiriad Strategol ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol o ran cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lluniwyd *Cynllun i Ychwanegu Gwerth - trydydd Dimensiwn* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cyfrannu at gyfarwyddiadau cynllunio a phrosesau comisiynu a chynyddu cyfraniad y sector gwirfoddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gan y sector gwirfoddol rôl allweddol o safbwynt cefnogi iechyd, gofal cymdeithasol a lles, ac yn arbennig o safbwynt atal afiechyd; sicrhau bod darpariaeth ar gael yn nes at le y mae pobl yn byw; cynnwys pobl leol a thrwy ddarparu'r math o wasanaethau ymatebol a'r cymorth y mae pobl eu heisiau.

Amlinella'r ddogfen hon ganllawiau strategol ar gyfer y sector wirfoddol er mwyn cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol gan gydnabod y gwerth ychwanegol mae'r sector yn ei gyfrannu.
Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
http://new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/healandsoccarecurrcons/designedaddvalue/?lang=cy
neu cysylltwch â Sioned ym Mantell Gwynedd. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar **Mai 5 2008.**

Grwpiau Gwella Gwasanaeth Gwynedd

Yn ddiweddar mae Bwrdd Partneriaeth Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd wedi adolygu'r drefn cynllunio i geisio cryfhau elfennau cydweithio rhwng gofal cymdeithasol gan gynnwys y trydydd sector ac iechyd. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Grŵp Cynllunio a Chomisiynu gyda'r nod o ddatblygu rhagor ar gomisiynu ar y cyd, cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ym mhob ardal o Wynedd. Fe fydd y grŵp yma hefyd yn cefnogi a monitro gwaith Her Iechyd Gwynedd (a elwid gynt yn Gynghrair Iechyd).

Fe fydd y Grwpiau Gwella Gwasanaeth yn adrodd i'r Grŵp Cynllunio a Chomisiynu. Mae tri grŵp wedi eu sefydlu ar gyfer Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Oedolion (i gynnwys pobl hŷn, dementia ac amhariad corfforol). Prif nod y grwpiau yma yw datblygu cynlluniau gweithredu a strategaethau i wella gwasanaethau ar gyfer pob grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Dafydd Owen, Rheolwr Cynllunio a Chomisiynu ar y Cyd, Cyfadran Gofal, Cyngor Gwynedd ar **01286 679725** neu cysylltwch â Sioned Larsen ym Mantell Gwynedd ar **01286 672626**

Grŵp Diabetes Dwyfor

Mae Grŵp Diabetes Dwyfor yn cyfarfod ar y **trydydd Dydd Iau** o bob mis (heblaw am fis Awst). Cynhelir y cyfarfodydd yng **Nghapel y Drindod**, **Pwllheli am 7.30 y nos**. Bydd siaradwyr gwadd yn mynychu'r cyfarfodydd ac ar y diwedd bydd cyfle i gael paned a sgwrs anffurfiol. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Verlie Thomas ar **01758 713779**

Partneriaeth Datblygu Gweithlu Cymdeithasol Gwynedd Gwefan Hyfforddiant Newydd

O Ebrill 2008 ymlaen bydd holl fanylion am hyfforddiant a chyrsiau a fydd yn cael eu cynnal gan y Bartneriaeth uchod ar gael ar **www.gwynedd.gov.uk/datblygugweithlu** Gallwch gysylltu hefyd â'r Uned Datblygu Gweithlu yn y Gyfadran Gofal ar **01286 679026**

WWW: GWEFANNAU DEFNYDDIOL:

www.ccwales.org.uk - Cyngor Gofal Cymru
www.billgwynedd.cymru.nhs.uk - Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd
www.healthcarealliances.co.uk - Hyfforddiant ac Ymgynghori ar gyfer y GIG, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sector Wirfoddol
Cofiwch hefyd am Wefan Mantell Gwynedd **www.mantellgwynedd.com** - i gael gwybodaeth helaeth am grantiau, gwirfoddoli, hyfforddiant, mudiadau, materion iechyd, gofal a lles ayb.

Syniadau am Ffynonellau Cyllid Posibl:

Ymddiriedolaeth Tudor

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith mewn ystod eang o anghenion, gan gynnwys pobl ifanc a phobl hŷn, anghenion cymunedol, tai, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, cyfiawnder troseddol a thlodi. Am fwy o wybodaeth ewch ar: **www.tudortrust.org.uk/HowToApply/Yourfirst-stageproposal.thml**

Ymddiriedolaeth Elusennol Yapp

Cronfa ar gyfer elusennau cofrestredig bach yng Nghymru a Lloegr sydd â gwariant blynyddol o lai na £60,000. Mae grantiau ar gael ar gyfer gwaith gyda: henoed; plant a phobl ifanc rhwng 5 a 25 oed; pobl ag anableddau, problemau iechyd meddwl; camddefnyddio sylweddau ayb. Darperir grantiau hefyd i gefnogi gwaith elusennau ym maes addysg a dysgu (gan gynnwys dysgu gydol oes). Derbynnir ceisiadau trwy gydol y flwyddyn gyda'r dyddiadau cau canlynol yn 2008: **26 Mai** a **30 Medi 2008**. Ceir gwybodaeth lawn ar **www.yappcharitabletrust.org.uk**

Cronfa Ewch Amdani (Cynllun Peilot)

Mae Mantell Gwynedd mewn partneriaeth newydd â Chyngor Chwaraeon Cymru wedi sefydlu cronfa grant beilot i gefnogi grwpiau gwirfoddol ar draws Gwynedd sydd ddim wedi eu sefydlu'n wreiddiol i ddiben chwaraeon neu heb fod yn ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
Am becyn cais neu fanylion pellach cysylltwch â **Delyth Vaughan** ar **01286 672626** neu **delyth@mantellgwynedd.com.** Am fwy o wybodaeth gweler y daflen amgaeëdig neu ewch ar wefan Mantell **www.mantellgwynedd.com.**

Papur Ymgynghori: Cynigion i newid strwythur y GIG yng Nghymru

Am gopi o'r Ddogfen ewch ar **http://new.wales.gov.uk/?/lang=cy** neu cysylltwch â Sioned ym Mantell Gwynedd. Ymatebion erbyn **Mehefin 25 2008.**

DIGWYDDIADAU A DYDDIADAU I'W RHOI YN Y DYDDIADUR:

Ffair Arianwyr Mantell Gwynedd - Gorffennaf 1 2008 - y Mynydd Gwefru, Llanberis. Stondinau yn cynnwys Y Loteri Fawr, WCVA, Y Cyngor Chwaraeon a llawer mwy!

Cynhadledd 'Dementia' – Mehefin 12 2008 - Galeri, Caernarfon.
Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Gymdeithas Alzheimers ar **01248 671125**

***Mannau Cyfartal – Yn Fyw!* Seminarau Celfyddydau Anabledd Cymru 2008**
Galeri, Caernarfon Dydd Iau 15fed Mai
Glan yr Afon, Casnewydd Dydd Mawrth 20fed Mai
Cyfle i gael cyngor ac arweiniad am yr arfer gorau o gynnwys pobl anabl, fyddar a dan anfantais.
Cost £25 y pen a chinio. Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle cysylltwch â Celfyddydau Anabledd Cymru - **post@dacymru.com** neu **029 2055 1040**

Cynhadledd Iechyd Meddwl Cronfa Loteri Fawr - 27 Mehefin 2008 - Aberystwyth
Yn dilyn lansiad rhaglen £15 miliwn **Iechyd Meddwl** Cronfa y Loteri Fawr yn Chwefror 2007 dechreuodd y Gronfa ar ymgyrch sydd â'r nod i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl yn gyffredinol.

Bydd canlyniadau'r ymchwil, a gynhaliwyd gan Mind Cymru, yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu yn y gynhadledd uchod. Yn y Gynhadledd bydd gwaith arloesol ym maes iechyd meddwl yn cael eu hamlygu drwy gyfrwng astudiaethau achos a gweithdai.
Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle cysylltwch â **mental.healthmatters@biglotteryfund.org.uk** neu **01686 611702**.